

Crynodeb gweithredol

1. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd adolygiad cynhwysfawr o'r system cymorth cyfreithiol gan gynnwys pob cynllun ffioedd a'r farchnad ehangach.¹ Roedd y llywodraeth ar y pryd yn cydnabod fod natur y system cyfiawnder troseddol wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf. Er bod nifer yr achosion a ddaeth trwy'r system wedi gostwng, roedd yr achosion yn fwy cymhleth ac yn fwy llafurus i bawb sy'n rhan o'r broses cyfiawnder troseddol, gan gynnwys yr heddlu, erlynwyr, ymarferwyr amddiffyn a'r llysoedd. Wrth edrych ymlaen, bydd tirwedd y system cyfiawnder troseddol yn parhau i ddatblygu fel rhan o ffocws y Llywodraeth ar gyfraith a threfn, gan gynnwys cynlluniau i recriwtio 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig ein bod yn gwneud yr hyn sydd ei angen i sicrhau bod y system cymorth cyfreithiol troseddol yn effeithlon ac yn effeithiol, ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.
2. Dyma nodau'r Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol ("yr adolygiad"):
 - Diwygio'r cynlluniau ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol fel eu bod yn:
 - adlewyrchu'r gwaith a wnaed, a thalu'n deg amdano;
 - cefnogi cynaliadwyedd y farchnad, gan gynnwys recriwtio, cadw, a datblygiad gyrfa o fewn y proffesiynau a gweithlu amrywiol;
 - cefnogi hwyluso achosion yn gyfiawn, yn effeithlon ac yn effeithiol, cyfyngu ar gymhellion gwrthnysig, a sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr;
 - yn gyson â, a lle bo hynny'n briodol, yn galluogi diwygiadau ehangach;
 - syml ac yn gosod beichiau gweinyddol rhesymol ar ddarparwyr, yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC), ac ar adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth;
 - sicrhau bod pob achos yn cael ei thrin gan ymarferwyr sydd â'r sgiliau a'r profiad cywir.
 - Diwygio'r farchnad cymorth cyfreithiol ehangach i sicrhau bod y farchnad darparwyr yn:
 - ymateb yn hyblyg i newidiadau yn y system ehangach, yn dilyn arferion a strwythurau gwaith sy'n sbarduno hwyluso achosion yn effeithlon ac yn effeithiol, ac yn sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr;

¹ I gael rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol, ewch i'r wefan: <https://www.gov.uk/guidance/criminal-legal-aid-review>

- yn gweithredu i sicrhau bod gwasanaethau cymorth cyfreithiol yn cael eu darparu gan ymarferwyr sydd â'r sgiliau a'r profiad cywir;
 - gweithredu i sicrhau'r lefel gywir o ddarpariaeth cymorth cyfreithiol ac i annog gweithlu amrywiol.
3. Er mwyn cefnogi'r canlyniadau hyn, mae angen sylfaen dystiolaeth gadarn ac eang. At y diben hwnnw, rydym wedi ymgysylltu'n eang ag ymarferwyr rheng flaen ac wedi cytuno i rannu data yn helaeth rhwng y cyrff cynrychioli proffesiynol, yr ACC a Gwasanaeth Eryl y Goron (CPS) i lunio darlun manwl o'r system cymorth cyfreithiol troseddol.
 4. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno cynigion i fynd i'r afael â materion allweddol a oedd, ym marn y proffesiynau amddiffyn troseddol y gwnaethom ymgynghori â hwy, yn bryderon brys. Gyda'i gilydd, mae'r cynigion hyn yn cynrychioli £32m-£50m o arian ychwanegol ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol. Rydym yn amcangyfrif y bydd yr arian ychwanegol hwn yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng cwmnïau cyfreithiol a bargyfreithwyr.
 5. Mae'r meysydd ar wahân hyn yn cynrychioli cam cyntaf tuag at yr adolygiad llawnach a fydd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd y system cymorth cyfreithiol troseddol cyfan, ac yn sicrhau ein bod yn talu'n deg am y gwaith y mae ymarferwyr amddiffyn troseddol yn ei wneud, yn enwedig yng ngoleuni diwygiadau ehangach i'r system cyfiawnder troseddol.
 6. Ar y cyd â chyrff cynrychioli proffesiynol, gan gynnwys Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cyngor y Bar, Pwyllgor y Bargyfreithwyr Ifanc a Chymdeithas y Bar Troseddol, cytunwyd i gyflwyno ystyriaethau'r meysydd a ganlyn:
 - sut mae ymgyfreithwyr ac adfocadau yn cael eu talu am waith ar ddeunyddiau heb eu defnyddio;²
 - sut mae adfocadau'n cael eu talu am eu gwaith ar achosion sydd â llawer o waith papur;
 - sut mae adfocadau'n cael eu talu am dreialon chwâl yn Llys y Goron;
 - sut mae ymgyfreithwyr yn cael eu talu am y gwaith o anfon achosion i Lys y Goron;
 - sut mae ymgyfreithwyr yn cael eu talu am ymgysylltu cyn cyhuddo.³

² Mae "ymgyfreithwyr" yn cyfeirio at gyfreithwyr a swyddogion cyfreithiol sy'n gwneud gwaith ymgyfreitha. Mae "adfocadau" yn cyfeirio at gyfreithwyr adfocad a bargyfreithwyr.

³ Cyfeirir at y meysydd hyn gyda'i gilydd fel y "meysydd carlam" yn y ddogfen hon, ac yn y Datganiad Cydraddoldeb Asesiad Effaith sy'n cyd-fynd â hi.

7. Byddwn yn ffurfioli ac yn ymgynghori ar gynnig am dâl am ymgysylltu cyn cyhuddo yn dilyn cyhoeddi canllawiau datgelu newydd gan y Twrnai Cyffredinol, sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd.⁴
8. Trwy'r cynigion hyn, a thrwy ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael, ein nod yw sicrhau bod y cynlluniau ffioedd yn cyd-fynd â thueddiadau newidiol yn natur y dystiolaeth a deunyddiau heb eu defnyddio sy'n cefnogi nod yr adolygiad o dalu'n deg am waith sy'n cael ei wneud. Rydym wedi ceisio adlewyrchu dulliau cyfredol o reoli achosion, a rhai sy'n dod i'r amlwg, i gefnogi hwyluso achosion yn gyfiawn, yn effeithlon ac yn effeithiol.
9. Rydym yn ddiolchgar am yr ymgysylltiad a gawsom gan ymarferwyr amddiffyn sydd wedi ein helpu ni i adeiladu sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r cynigion hyn. Wrth i ni symud ymlaen i'r adolygiad llawnach, byddwn yn parhau i ymgysylltu'n helaeth ac yn uniongyrchol ag ymarferwyr ynglŷn â dyfodol y system cymorth cyfreithiol troseddol. Fel rhan o'r ymgynghoriad cyfredol hwn rydym yn croesawu tystiolaeth ar y cynigion yn y ddogfen hon, yn ogystal â'r rhai sy'n ymwneud â materion cynaliadwyedd ehangach a diwygio'r farchnad ehangach, a byddwn yn eu hystyried fel rhan o'r adolygiad llawnach.

Crynodeb o'r cynigion

Deunyddiau heb eu defnyddio (Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau (AGFS) a Chynllun Ffioedd Graddedig Ymglyfreithwyr (LGFS))⁵

10. Deunyddiau heb eu defnyddio yw deunyddiau sy'n berthnasol i achos (deunyddiau sydd â'r gallu i danseilio achos yr erlyniad a/neu gynorthwyo'r amddiffyniad), ond nad ydynt yn cael eu defnyddio fel rhan o dystiolaeth yr erlyniad sy'n cael ei gyflwyno yn y llys.
11. Mae'r cynnig hwn yn berthnasol i dreialon a threialon chwâl, ac nid yw'n cynnwys pledion euog oherwydd ei bod yn anghyffredin y byddai angen adolygu deunyddiau heb eu defnyddio yn yr achosion hyn. Treial chwâl yw treial nad yw'n mynd ymlaen i dreial fel y rhagwelwyd, naill ai ar ddiwrnod cyntaf y treial neu cyn hynny.

⁴ Agorodd yr ymgynghoriad ar Ganllawiau'r Twrnai Cyffredinol ar Ddatgelu ddydd Mercher 26 Chwefror, ac mae disgwyl iddo gau ddydd Mercher 22 Ebrill. Gellir gweld canllawiau ar ymgysylltu cyn cyhuddo yn Atodiad B – Ymgysylltu cyn cyhuddo. Mae'r ddogfen ymgynghori gyflawn ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-on-revisions-to-the-attorney-generals-guidelines-on-disclosure-and-the-cpia-code-of-practice>

⁵ Yr AGFS yw'r cynllun ffioedd ar gyfer y rhan fwyaf o waith adfocatiaeth Llys y Goron sy'n cael ei wneud gan fargyfreithwyr hunangyflogedig ac Adfocadau Llys Uwch sy'n cael eu cyflogi gan gwmnïau cyfreithiol. Yr LGFS yw'r cynllun ffioedd ar gyfer gwaith ymglyfreitha Llys y Goron sy'n cael ei wneud gan gyfreithwyr.

12. Ar gyfer adolygu deunydd heb ei ddefnyddio mewn treialon a threialon chwâl, rydym yn cynnig bod cyfreithwyr ac adfocadau yn cael eu talu swm sy'n cyfateb i 1.5 awr o waith am 0-3 awr a dreuliyd yn adolygu deunydd heb ei ddefnyddio a ddatgelwyd i'r amddiffyniad.
13. Ar gyfer achosion lle mae mwy na 3 awr yn cael ei dreulio yn adolygu deunydd heb ei ddefnyddio, rydym yn cynnig y dylai'r taliad fod ar gyfraddau fesul awr, sy'n cyfateb i'r cyfraddau fesul awr presennol ar gyfer paratoi arbennig yr AGFS neu'r LGFS, yn amodol ar asesiad yr hawliadau hynny gan yr ACC.⁶ Rydym wedi dewis cyflwyno ffioedd sy'n cyfateb i gyfraddau paratoi arbennig oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i dalu am waith adolygu tystiolaeth debyg.

Achosion â llawer o waith papur (AGFS)

14. Rydym yn cynnig caniatáu i adfocadau hawlio taliadau, yn ychwanegol at y ffi gyfredol AGFS, mewn achosion sy'n cynnwys swm anarferol o uchel o dystiolaeth, ar y gyfradd fesul awr berthnasol ar gyfer paratoi arbennig, yn amodol ar asesiad yr hawliadau hynny gan yr ACC. Rydym yn cynnig trothwyon newydd yn seiliedig ar dudalennau tystiolaeth erlyn (PPE) ar draws y bandiau troseddau i ganfod yr achosion a fydd yn gymwys i hawlio taliad ychwanegol am waith gan ystyried nifer y tudalennau sy'n uwch na'r trothwyon hynny. Mae'r trothwyon hyn wedi'u nodi yn y brif ddogfen, Tabl D, t.21.

Treialon chwâl yn Llys y Goron (AGFS)

15. Rydym yn cynnig ehangu cymhwysedd ffioedd treialon chwâl i bob achos sy'n chwalu ar ôl y gwrandawriad cyntaf yn Llys y Goron (lle cyflwynir ple), fel arfer y Gwrandawriad Paratoi ar gyfer Treial a Phledio (PTPH), gan ddileu'r gwahaniaeth traean o'r AGFS. Ar hyn o bryd, dim ond achosion sy'n chwalu yn nhraean olaf yr amser rhwng y PTPH a'r dyddiad y rhestrir yr achos ar gyfer treial sy'n gymwys ar gyfer ffi treialon chwâl.
16. Rydym hefyd yn cynnig cynyddu ffioedd sylfaenol treialon chwâl o 85% i 100% o'r ffioedd briff.
17. Ar y cam hwn, rydym yn ymgynghori ar newidiadau i'r AGFS yn unig mewn perthynas â threialon chwâl. Oherwydd gwahaniaethau strwythurol rhwng y ddau gynllun, nid yw'r ffordd y mae treialon chwâl yn cael eu talu o dan yr AGFS yn berthnasol i daliadau am dreialon chwâl o dan yr LGFS. Byddwn yn ystyried taliadau treialon chwâl dan y LGFS fel rhan o'r adolygiad llawnach.

⁶ Mae pob cyfeiriad at gyfraddau fesul awr yn yr adran Deunydd heb ei Ddefnyddio yr un cyfraddau â'r rhai a ragnodir yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Tâl) 2013 ar gyfer "paratoad arbennig" o dan bob cynllun. Gellir dod o hyd i'r cyfraddau paratoi arbennig yn Nhabl B ar gyfer AGFS a Thabl C ar gyfer LGFS.

Anfon achosion i Lys y Goron (LGFS)

18. O dan y cynnig hwn, byddem yn talu cynnydd yn ffioedd LGFS sy'n cyfateb i werth 2 awr o waith yn y llys ynadon i dalu'n well am y gwaith sy'n cael ei wneud cyn i achosion gael eu hanfon i Lys y Goron o dan y fenter Rheoli Achosion yn Well (BCM) a'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol.

Ymgysylltu cyn cyhuddo (troseddu is)

19. Fel y nodir uchod, byddwn yn ffurfioli ac yn ymgynghori ar gynnig i dalu ymgyfreithwyr am ymgysylltu cyn cyhuddo ar wahân yn dilyn cyhoeddi canllawiau datgelu newydd gan y Twrnai Cyffredinol, sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd. Mae Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol (AGO) yn bwriadu newid eu canllawiau i annog mwy o ymgysylltiad cynnar i hwyluso datrys materion yn ymwneud â thystiolaeth yn gynnar. Ar ôl i'r canllawiau gael eu cyhoeddi, byddwn yn ymgynghori ar gynigion i dalu ymgyfreithwyr am waith a wnaethpwyd yn ymgysylltu â'r heddlu neu'r erlyniad cyn unrhyw benderfyniad i gyhuddo.